OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1736 (Cy.166) (C.53)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Digartrefedd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002

*Wedi'i wneud - - 4 Gorffennaf 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 20(1) a (3) o Ddeddf Digartrefedd 2002(**1**):

**Enw, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Digartrefedd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002 ac mae'n gymwys i Gymru yn unig.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Digartrefedd 2002 ("y Ddeddf") ac Atodlenni iddi.

**Y diwrnodau penodedig**

**2.**—(1) Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a bennwyd yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym yng Nghymru yw 30 Medi 2002.

(2) Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a bennwyd yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym yng Nghymru yw 27 Ionawr 2003.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

4 Gorffennaf 2002

(**1**) 2002 p.7.
(**2**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

# RHAN 1

## Y DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR 30 MEDI 2002

| | |
|---|---|
| adran 1 | (Dyletswydd ar awdurdod tai lleol i fformiwleiddio strategaeth digartrefedd) |
| adran 2 | (Adolygiadau digartrefedd) |
| adran 3 | (Strategaethau digartrefedd) |
| adran 4 | (Adran 1 i 3: dehongli) |
| adran 5 | (Darparu llety ar gyfer pobl nad yw eu hanghenion yn flaenoriaeth nad ydynt yn ddigartref o fwriad) |
| adran 6 | (Diddymu'r isafswm cyfnod y mae awdurdod yn ddarostyngedig i brif ddyletswydd digartrefedd) |
| adran 7 | (Digwyddiadau sy'n achosi'r prif ddyletswydd digartrefedd i ddod i ben) |
| adran 9 | (Diddymu dyletswydd o dan adran 197) |
| adran 10 | (Personau sy'n honni eu bod yn ddigartref sydd mewn perygl o drais) |
| adran 11 | (Adran 204(4): apelau) |
| adran 12 | (Cydweithredu mewn rhai achosion sy'n cynnwys plant) |
| adran 17 | (Cymru) |
| adran 18 | (Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau) — heblaw i'r graddau y mae'n berthnasol i'r darpariaetha yn yr Atodlenni i'r Ddeddf y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o'r Atodlen hon. |
| adran 19 | (Darpariaethau ariannol) |
| Atodlen 1 | (Mân ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol) — heblaw am baragraffau 1 i 7 yn gynwysiedig |
| Yn Atodlen 2 | (Diddymiadau), |
| Deddf Tai 1996 (p.52) | Adran 191(4)<br><br>Yn adran 193, yn is-adran(1), y geiriau o “This section” i'r diwedd, ac yn is-adran (8), y geiriau “of accommodation under Part VI”.<br><br>Adran 194 |

| | |
|---|---|
| | Yn adran 195, yn is- adran(2), y geiriau o "This subsection" i'r diwedd ac, yn is- adran (4), y geiriau o "and section" i "duty)". |
| | Adran 196(4) |
| | Adran 197 |
| | Yn adran 198(1), y geiriau o "The authority" i'r diwedd. |
| | Yn adran 200(5), y geiriau "(3) or (4)". |
| | Yn adran 205(1) y cofnod mewn perthynas ag adran 207. |
| | Adran 207 |
| | Yn adran 218, y cofnod ar gyfer "minimum period" |
| Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 (p.33) | Adran 117(4) |

## RHAN 2

### Y DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR 27 IONAWR 2003

| | |
|---|---|
| adran 13 | (Cymhwyso Rhan 6 ar gyfer tenantiaid presennol) |
| adran 14 | (Diddymu'r ddyletswydd i gadw cofrestr tai) |
| adran 15 | (Cais am lety tai) |
| adran 16 | (Cynlluniau neilltuo) |
| adran 18 | (Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau) — i'r graddau nad ydyw wedi dod i rym erbyn y dyddiad hwnnw |
| Atodlen 1 | (Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) — paragraffau 1, 2, 4, 5 a 6 |
| Atodlen 2 | (Diddymiadau) |
| Deddf Tai 1985 (p.68) | Yn adran 106(6), y geiriau "housing registers and". |
| Deddf Tai 1996 (p.52) | Adrannau 161 i 165. |
| | Yn adran 174, y cofnodion ar gyfer "housing register" a "qualifying person". |
| Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 (p.33) | Adran 117 (3) |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Derbyniodd Deddf Digartrefedd 2002 ("y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol ar 26 Chwefror 2002.

Daeth adran 8 a pharagraffau 3 a 7 o Atodlen 1 i'r Ddeddf i rym pan roddwyd Cydsyniad Brenhinol iddynt. Mae'r gorchymyn hwn yn dod â gweddill darpariaethau'r Ddeddf i rym yng Nghymru ar 30 Medi 2002 yn achos y darpariaethau digartrefedd ac ar 27 Ionawr 2003 yn achos y darpariaethau neilltuo tai.